Astudiaeth ddichonoldeb gyda chyflogwyr lleol, myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer datblygu cwricwlwm y sector adeiladu i'r dyfodol.

# Cynllluniwch Eich Dyfodol

## Coleg Ceredigion

Gan

perspectif

Tachwedd 2019

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol ..... 2
Cyflwyniad a Chyd-destun ..... 2
Methodoleg ..... 2
Trosolwg o’r Darganfyddiadau ..... 2
Casgliadau ..... 4
2. Cyflwyniad ..... 5
2.1. Cyd-destun ..... 5
2.2. Amcanion ..... 5
2.3. Methodoleg ..... 5
3. Y Dargynfyddiau Llawn ..... 7
3.1. Y Sector Yng Ngorllewin Cymru ..... 7
3.1.1. Trosolwg ..... 7
3.1.2. Barn ar y sector yng Ngorllewin Cymru ..... 7
3.1.3. Y sector yng Ngorllewin Cymru: Addasu i newid ..... 8
3.2. Heriau sgiliau a’r sector adeiladu yng Ngorllewin Cymru ..... 9
3.2.1. Prinder sgiliau ..... 9
3.2.2. Heriau Sgiliau ..... 10
3.3. Prentisiaid ..... 13
3.3.1. Cyflogi prentisiaid ..... 13
3.3.2. Parodrwydd am waith ..... 14
3.3.3. Mynd i'r afael â materion prentisiaethau a diwallu anghenion busnesau ..... 15
3.4. Cysylltiadau rhwng y Diwydiant a’r Sector Addysg ..... 16
3.4.1. Y sefyllfa bresennol ..... 16
3.4.2. Cysylltiadau â’r diwydiant: Y Dyfodol ..... 16
3.5. Themâu Allweddol a Chanlyniadau ..... 17
A. Prinder sgiliau ..... 17
B. Parodrwydd am waith ..... 18
C. Adeiladu Cysylltiadau ..... 19

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Yn 2019, penodwyd Perspectif gan Goleg Ceredigion i gynnal ymgynghoriad gyda busnesau adeiladu, rhanddeiliaid a myfyrwyr allweddol er mwyn ennill dealltwriaeth ddyfnach o faterion ac anghenion sgiliau'r sector lleol.

Amcanion yr ymgynghoriad oedd

- Ennill dealltwriaeth dda o anghenion sgiliau y busnesau adeiladu lleol
- Adnabod sut y gellir cryfhau cysylltiadau rhwng y coleg a busnesau er sicrhau datblygiad cyrsiau a set-sgiliau priodol ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio
- Deall cymhellion bobl ifainc sy'n dewis adeladu fel gyrfa
- Deall anghenion yr iaith Gymraeg yn y gweithle
- Adnabod y cyfleoedd sy'n amlygu o fewn y sector adeiladu yng Ngheredigion

Mae'r sector yng Ngheredigion, fel ar draws Cymru gyfan, yn cynnwys gan fwyaf busnesau meicro gyda llai na 10 o weithwyr. Eto, mae rhai agweddau a disgwyliadau gwahanol iawn rhwng y busnesau meicro hyn, yn enwedig ymhlith y rhai sydd â llai na 5 o weithwyr a'r rhai sy'n cyflogi mwy. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r term "busnesau mwy" yn cyfeirio at fusnesau sydd â 6 neu fwy o weithwyr.

## Methodoleg

Defnyddiwyd nifer o wahanol fethodolegau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i sicrhau ein bod yn casglu a gwerthuso barn ystod eang o randdeiliaid yn y sector adeiladu yng Ngheredigion sef:

- Arolwg cychwynnol gyda busnesau adeiladu
- Sesiynau galw-heibio gyda myfyrwyr adeiladu ar gampws Coleg Ceredigion, Aberteifi
- Galwadau ffôn dilynol, manwl gyda busnesau ychwanegol yn y sector
- Cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid allweddol yn y sector

## Trosolwg o'r Darganfyddiadau

Yn gyffredinol, mae'r rhai sy'n gweithio ym maes adeiladu, a rhanddeiliaid allweddol, yn rhannu'r un farn a phryderon am y sector yng Ngheredigion.

*Addasu i newid ac arloesedd*

Y consenswś cyffredinol ymysg y busnesau yw bod y sector yng Ngorllewin Cymru yn addasu i newidiadau mewn rheoleiddio a datblygu dulliau ac arloesiadau newydd. Serch hynny, cydnabyddir nad yw cadw'n gyfredol â datblygiadau newydd bob amser yn hawdd nac yn briodol i nifer o'r cwmnïau llai â'u prif ffocws ar adnewyddu, gwelliannau yn y cartref, a retro-ffitio y stoc dai hŷn ar draws y rhanbarth.

Mae'r rhanddeiliaid wedi adnabod nifer o gyfleoedd o fewn y sector yn enwedig o ran Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Twf Canolbarth Cymru. Ond yr ofn yw lle na all cwmnïau fynd i'r afael â'r datblygiadau diweddaraf efallai na fydd hi'n bosib iddynt elwa o'r cynlluniau hyn.

*Prinder a Heriau Sgiliau*

Mae busnesau a rhanddeiliaid yn nodi bod materion sy'n cwmpasu sgiliau yn fygythiad mawr i'r sector yng Ngheredigion. Yn benodol, mae busnesau mwy yn fwy tebygol o brofi heriau sgiliau gan achosi risg sylweddol i'w gallu i gynnig am brosiectau mwy yn y rhanbarth. Mae busnesau'n tynnu sylw at y ffaith ei bod hi'n hanfodol bod gan recriwtiaid newydd lefel dda o sgiliau cyffredinol. Mae'r busnesau mwy yn chwilio am gymysgedd o sgiliau cyffredinol ac arbenigol yn eu recriwtiaid newydd. Nodwyd bod sgiliau adeiladu technegol sylfaenol da, ynghyd â mwy o sgiliau rhyngbersonol a lefel sylfaenol o addysg mewn rhifedd a llythrennedd,yn hanfodol ar gyfer recriwtiaid iau.  Y teimlad yn gyffredinol yw bod y sgiliau hyn yn brin ymysg y recriwtiaid newydd y maent wedi'u cyflogi gan arwain at gynnydd araf yn y gweithle.

*Prentisiaethau*

Mae prentisiaethau yn chwarae rhan ganolog yn natblygiad gweithlu'r sector. Ar hyn o bryd fe'u defnyddir yn bennaf gan y busnesau mwy (6 neu fwy o weithwyr). Os yw nifer y prentisiaid i gynyddu mae'n hanfodol bod busnesau bach iawn yn cael eu targedu â gwybodaeth i'w helpu i ddeall sut y gallai cyflogi prentis fod o fudd iddynt.

Mae'r myfyrwyr yn falch o'r sgiliau maent yn eu dysgu a byddent yn argymell prentisiaethau adeiladu i'w ffrindiau a'u teulu. Maent yn gweithredu fel llysgenhadon rhagorol ar ran y rhaglen. Mewn cyferbyniad, mae busnesau'n tueddu i deimlo nad oes gan brentisiaid sgiliau arbennig o dda ar gyfer y gweithle, gydag addysg sylfaenol mewn Mathemateg a Saesneg yn enghreifftiau allweddol o'r diffyg hwn. Mae'r canfyddiad hwn yn tanlinellu'r bwlch sylweddol sydd yn bodoli rhwng disgwyliadau busnesau o ran y sgiliau sydd eu hangen a'r prentisiaid eu hunain.

Er gwaethaf y canfyddiad cyfredol parthed parodrwydd at waith prentisiaid dywed dwy ran o dair o'r busnesau y byddent yn cyflogi prentis yn y dyfodol agos. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynnig lleoliadau i fyfyrwyr/prentisiaid a chynyddu nifer y prentisiaid sy'n gweithio yn y sector. Ond...

Mae rhanddeiliaid yn tynnu sylw at yr angen am:

- brentisiaethau wedi eu teilwra sy'n hyblyg i anghenion dysgwyr a busnesau
- fynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol sy'n bodoli am y sector adeiladu ac i hyrwyddo'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael i ddysgwyr o bob gallu yn ehangach
- ddefnyddio technoleg i'r eithaf ar gyfer dysgu ac ar gyfer cynnig...
- cyrsiau modwlaidd er mwyn adeiladu sgiliau arbenigol yn y rhanbarth

## Casgliadau

Mae'r ymchwil yn dangos, er bod yna elfennau llwyddiannus o fewn y rhaglen brentisiaeth, gellir ei wella'n sylweddol pe bai'r sector adeiladu a'r sector addysg yn cydweithio'n agosach â'i gilydd.

Nodir 3 maes allweddol sydd angen eu datblygu:

- **Prinder sgiliau**
  Mae busnesau'n chwilio am sgiliau sylfaenol cadarn da yn eu recriwtiaid newydd, ac er bod bwlch sgiliau arbenigol yn y sector, does dim disgwyl i'r prentisiaid eu llenwi o du'r busnesau. Mae angen addysg sylfaenol dda ar y prentisiaid ynghyd â sgiliau sylfaenol da ar gyfer y sector (offer a thechnegau) a fydd yn gwella eu parodrwydd i ymuno â'r gweithle.
  **Bod yn barod at waith**
  Mae paratoi prentisiaid ar gyfer y gweithle yn hanfodol i ddatblygiad y rhaglen. Cyn belled â bod busnesau'n teimlo nad yw prentisiaid yn barod at waith, bydd amharodrwydd ymysg cwmnïau bach i'w cyflogi, gan ofni y byddant yn fwy o drafferth na'u gwerth. Byddai sicrhau bod prentisiaid wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y byd gwaith o ran eu sgiliau e.e. rhifedd, iaith/ cyfathrebu a datrys problemau, ochr yn ochr â'u sgiliau adeiladu, yn gwella enw da'r cynllun prentisiaethau ac yn help i ddenu mwy o fusnesau i gymryd rhan yn y rhaglen.
  **Adeiladu cysylltiadau**
  Mae'r busnesau meicro, sy'n ffurfio mwyafrif y sector ar draws Gorllewin Cymru, yn teimlo nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r sector addysg. Serch hynny, maent yn awyddus i weld newid ac yn croesawu cyfleoedd i weithio gyda'r Coleg. Ymysg yr awgrymiadau i gyflawni hyn mae:
  a. Grwpiau llywio dan arweiniad y cyflogwyr – i helpu siapio'r cwricwlwm, gwneud cyrsiau'n fwy hyblyg a pherthnasol a chynnig opsiynau i "rannu" prentisiaid rhwng busnesau bach.
  b. Diwrnodau agored a digwyddiadau mewn siopau masnach i hyrwyddo'r rhaglen brentisiaeth ymysg y busnesau hynny sydd, efallai, heb eu hystyried o'r blaen.
  c. Cyfathrebu a deialog uniongyrchol â busnesau lleol i wella'r ddealltwriaeth o anghenion busnesau a chynyddu'r cysylltiadau â busnesau lleol.

  Mae cyfleoedd sylweddol ar gael i wella'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y coleg a'r sector. Byddai rhain nid yn unig yn cynyddu ystod y cyfleoedd gwaith yn lleol i fyfyrwyr, byddent hefyd yn gwella lefel sgiliau'r myfyrwyr, yn gwella eu parodrwydd at waith, cyfradd eu llwyddiant a denu ystod ehangach o fyfyrwyr.

Mae prentisiaethau yn elfen hanfodol o'r gweithlu yn y sector, felly mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael y llwyfan gorau i ddechrau ar eu gyrfa. Mae mynd i'r afael â'r tair elfen allweddol uchod yn hanfodol i ddatblygiad llwyddiannus y rhaglen brentisiaeth yng Ngholeg Ceredigion, a bydd yn sicrhau bod dysgwyr, busnesau a'r sector yn y rhanbarth yn elwa o weithlu mwy galluog a medrus.

# 2. Cyflwyniad

## 2.1. Cyd-destun

Yn 2019, penodwyd Perspectif gan Goleg Ceredigion i gynnal ymgynghoriad ymhlith busnsau, rhanddeiliaid a myfyrwyr allweddol er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o faterion ac anghenion sgiliau busnesau adeiladu lleol. Mae'r prosiect wedi derbyn cyllid trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Coleg yn awyddus i ddatblygu ar yr hyfforddiant a gynigir ganddo ar gyfer myfyrwyr/dysgwyr, a'u harfogi â sgiliau perthnasol ac angenrheidiol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau gweithlu â chymwysterau a sgiliau addas, yn ogystal â helpu i gadw'r gweithlu yn yr ardal a chyfrannu'n sylweddol at yr economi leol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cymdeithasol sy'n wynebu'r ardal.

## 2.2. Amcanion

Diffinir amcanion y prosiect fel a ganlyn:

- Ennill dealltwriaeth dda o anghenion sgiliau y busnesau adeiladu lleol.
- Adnabod sut y gellir cryfhau cysylltiadau rhwng y coleg a busnesau, er sicrhau datblygiad cyrsiau a set sgiliau priodol ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio.
- Deall beth sy'n cymell pobl ifanc sy'n dewis adeiladu yn yrfa.
- Deall angheniion yr iaith Gymraeg yn y gweithle.
- Adnabod y cyfleoedd sy'n amlygu o fewn y sector adeiladu yng Ngheredigion.

## 2.3. Methodoleg

Defnyddiwyd nifer o wahanol fethodolegau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i sicrhau ein bod yn casglu a gwerthuso barn ystod eang o randdeiliaid yn y sector adeiladu yng Ngheredigion sef:

Cymerodd 63 o fusnesau unigol ran yn yr ymgynghoriad[1]

- Cwblhawyd 30 arolwg cychwynnol ar-lein i gasglu rhywfaint o ddata cychwynnol ac yna nodwyd y meysydd allweddol i'w harchwilio ymhellach

[1] Mae'r nifer o fusnesau ag ymgynghorwyd â nhw yn cynrychioli 5% o gyfanswm y busnesau Adeiladu yng Ngheredigion. Er bod rhif y sylfaen (63) yn ystadegol yn rhy fach i'w ystyried yn ddibynadwy (± 12% cyfwng hyder), mae'n gynrychioliadol o'r sector

- Cymerodd 40 o fusnesau ran yn y cyfweliadau ffôn dilynol er archwilio'n fanylach i rai o'r materion a godwyd yn yr arolwg ar-lein.
- Cymerodd 7 busnes ran yn y cyfweliadau ar-lein a dros y ffôn.

Cymerodd 42 o fyfyrwyr adeiladu ar wahanol gamau yn eu hyfforddiant ran yn yr ymgynghoriad trwy roi eu barn am y cwrs prentisiaeth, y sgiliau maent yn eu dysgu a'r sector adeiladu lleol.

Cynhaliwyd cyfweliadau manwl gyda 6 o randdeiliad allweddol er mwyn ychwanegu at y ddealltwriaeth o'r materion ehangach sy'n effeithio ar y sector ac i gael gwell dealltwriaeth o sut y gall y Coleg gryfhau cysylltiadau â'r sector.

O ddefnyddio'r dull datblygu hwn, galluogwyd ni i adolygu'r canfyddiadau cychwynnol gyda myfyrwyr a busnesau cyn dechrau'r cyfweliadau dros y ffôn.  Golyga hyn fod y cyfweliadau dilynol â busnesau ychwanegol a rhanddeiliaid allweddol yn medru canolbwyntio ar y materion allweddol a'u harchwilio'n fanylach.

# 3. Y Dargynfyddiau Llawn

## 3.1. Y Sector Yng Ngorllewin Cymru

### 3.1.1. Trosolwg

Yn 2018, roedd cyfanswm o 7,995 o fentrau adeiladu wedi'u sefydlu yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion[2]. Cynrychiola hyn 17% o gyfanswm y mentrau adeiladu yng Nghymru.

Busnesau bach sy'n dominyddu'r sector ar draws y wlad. Mae 98% o fusnesau adeiladu yng Nghymru wedi'u categoreiddio yn fusnesau meicro gyda llai na 10 o weithwyr. Adlewyrchir hyn ar draws y tair sir - Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion.

| | Adeiladu | Busnesu Meicro (0-9 o weithwyr) | meicro yn % o'r cyfan |
|---|---|---|---|
| *Cymru gyfaan* | *47,405* | *46,430* | *98%* |
| **Sir Gaerfyrddin** | 4,165 | 4095 | 98% |
| **Sir Benfro** | 2,680 | 2640 | 99% |
| **Ceredigion** | 1,150 | 1125 | 98% |
| **CYFANSWM GORLLEWIN CYMRU** | **7,995** | **7,860** | **98%** |

Busnesau meicro yw sylfaen y sector yng Ngorllewin Cymru ac o'r herwydd mae'n hanfodol bod anghenion a chyfyngiadau busnesau bach yn cael eu cydnabod a'u hystyried wrth ddatblygu'r ddarpariaethar gyfer prentisiaethau a rhaglenni hyfforddi. Eto, mae rhai agweddau a disgwyliadau gwahanol iawn rhwng y busnesau meicro eu hunain, yn enwedig ymysg y rhai sydd â llai na 5 o weithwyr a'r rhai sy'n cyflogi mwy. At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r term “busnesau mwy” yn cyfeirio at fusnesau sydd â 6 neu fwy o weithwyr.


### 3.1.2. Barn ar y sector yng Ngorllewin Cymru

Mae'r farn ar gyflwr presennol y sector yng Ngorllewin Cymru ymysg y busnesau wedi ei rhannu - yn enwedig o ran cofleidio dulliau adeiladu newydd ac ar ba mor dda mae'r sector yn cyflawni.

Roedd tua thraean o'r busnesau'n teimlo nad yw'r sector yn ffynnu gan nodi prinder sgiliau yn ffactor hanfodol. Roedd tua dwy ran o dair o'r busnesau wnaeth ymateb i'r arolwg ar-lein yn teimlo nad oes digon o weithwyr yn lleol yn addas i ddiwallu anghenion cyfredol y sector[3]

[2] Ffynhonnell Statswales.gov.uk (2018)
[3] Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad I: Adroddiad Cryno Arolwg Ar-lein Â Busnesau Adeiladu

Er bod y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn sgil ddymunol, pan ofynwyd yn benodol amdani ychydig o fusnesau nododd bod diffyg sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn ofid iddynt. Sgiliau rhifedd a chyfathrebu cyffredinol oedd y materion a godwyd gan fwyaf.




Mae'r rhanddeiliaid yn teimlo bod y sector yng Ngorllewin Cymru yn llawn cyfleoedd i fusnesau, gan nodi'n benodol

- Bargen Ddinesig Bae Abertawe a Bargen Twf Canolbarth Cymru
- Sector Ynni: cynyddu gallu thermol, ynni adnewyddol ac adeiladu cynaliadwy, a
- Adeiladu treftadol

Maent hefyd yn tynnu sylw at nifer o fygythiadau i'r sector yn cynnwys:

- Busnesau o'r tu allan i'r ardal yn ennill contractau mwy ac yn denu sgiliau o'r ardal leol.
- BREXIT – ac unrhyw ostyngiad yn y cyllid ar gyfer sgiliau yn ei sgil.
- Canfyddiad y sector – yn cynnwys methiannau proffil uchel e.e.Dawnus.
- Anawsterau wrth annog busnesau meicro i fuddsoddi mewn dysgu a datblygu.
- Diffyg proffesiynoldeb yn y sector h.y. 'Addewid Sir Benfro'. Dibynadwyedd, agweddau ac ymddygiadau gwael o ran gwasanaeth cwsmeriaid gan fusnesau bach a chanolig a busnesau meicro.

Materion nad oes llawer o'r busnesau eu hunain yn eu cydnabod.

### 3.1.3. Y sector yng Ngorllewin Cymru: Addasu i newid

Ar y cyfan, y consensws cyffredinol yw bod y sector adeiladu yng Ngorllewin Cymru yn addasu i newidiadau mewn dulliau adeiladu a gweithgynhyrchu ac yn diweddaru rheoliadau adeiladu yn barhaus. Serch hynny, mae angen cydbwysedd o ran addasu i ddulliau newydd a'r angen i gadw

sgiliau sylfaenol a thraddodiadol er diwallu anghenion cwsmeriaid ar draws y rhanbarth. Gyda'r stoc o dai hŷn sy'n nodweddiadol o'r ardal, a'r galw mwyaf ar hyn o bryd am waith adnewyddu, gwelliannau i'r cartref a retro-ffitio, prin yw'r sgôp i lawer o'r busnesau fanteisio ar dechnoleg arloesol a blaengar.

Mae'r rhanddeiliaid yn cydnabod yr her y mae cwmnïau llai yn eu hwynebu wrth fabwysiadu arloesiadau newydd a sut y gallai hyn fygwth y cyfleoedd gwaith sydd ar gael iddynt. Y pryder yw nad yw busnesau bach ac unig fasnachwyr yn cymryd arloesedd o ddifrif, ac yn nodi'r diffyg cyfleoedd o ran datblygu eu gwybodaeth i'w haddysgu am y datblygiadau newydd.


Er gwaethaf pryderon y rhanddeiliaid, mae llawer o'r busnesau a gafodd eu cyfweld (73%) yn teimlo eu bod yn arloesol. Maent yn cymhwyso'r farn hon trwy dynnu sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol iddynt allu cynnig yr atebion diweddaraf a'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid er mwyn parhau i fod yn gystadleuol[4]. Neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu busnesau wrth geisio cadw'n gyfredol.

## 3.2. Heriau sgiliau a'r sector adeiladu yng Ngorllewin Cymru

### 3.2.1. Prinder sgiliau

At ei gilydd, mae'r sector Adeiladu yng Ngorllewin Cymru wedi'i rannu'n weddol gyfartal parthed prinder sgiliau yn y sector. Ar hyn o bryd mae tua hanner (51%) yn profi prinder sgiliau yn eu busnes, tra bod yr hanner arall (49%) ddim yn profi prinder sgiliau[5].

[4] Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad II: Crynodeb Cyfweliadau Ffôn Â Busnesau
[5] Mae'r canlyniadau cyffredinol wedi eu crynhoi o'r arolwg ar-lein a dros y ffôn; Sylfaen rhif = 63 busnesau siaradwyd â hwy





O edrych ar y canfyddiadau yn ôl maint y busnes, y rhai sy'n fwyaf tebygol o brofi prinder sgiliau yw'r rhai sy'n cyflogi 6 neu fwy o bobl. Mae'r rhai sydd â llai o weithwyr yn tueddu i fod yn hapusach gyda'r lefel o sgiliau yn eu busnesau.

Mae’r rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod prinder sgiliau yn y sector adeiladu yng Ngorllewin Cymru ac maent yn awyddus i gydweithio â'r Coleg i fynd i'r afael â hyn a sicrhau dyfodol y sector yn lleol.

### 3.2.2. Heriau Sgiliau

Pan ofynwyd i’r busnesau am yr heriau o ran sgiliau maent yn eu profi, tynwyd sylw at yr angen am sgiliau arbenigol. Dywed bron i ddwy ran o dair o'r busnesau sy'n profi prinder sgiliau, bod angen sgiliau arbenigol ar eu busnes ar hyn o bryd.


Rhifedd, sgiliau cyfathrebu a datrys problemau yw’r heriau mwyaf y mae busnesau yn eu hwynebu ar hyn o bryd:




Er mwyn asesu'r mater hwn ymhellach gofynnwyd i fusnesau a gymerodd ran yn y cyfweliadau dros y ffôn am fwy o fanylder parthed y sgiliau arbenigol, neu fwy cyffredinol, y dymunent i'w recriwtiaid newydd eu meddu.

Dywed bron i 6 o bob 10 o'r busnesau mai sgiliau cyffredinol sydd bwysicaf iddynt wrth recriwtio staff newydd. Busnesau bach a meicro – rhwng 1 - 5 o weithwyr - oedd â'r angen fwyaf am sgiliau arbenigol. Dywed tua 4 o bob 10 o'r busnesau mai sgiliau arbenigol sydd bwysicaf iddynt.


Sgiliau cyffredinol neu gyfuniad o sgiliau cyffredinol ac arbenigol oedd yn bwysicach i'r busnesau mwy.



Felly, er eu bod yn profi prinder sgiliau arbenigol yn eu busnesau ar hyn o bryd, mae perchnogion a rheolwyr ar y cyfan yn chwilio am sgiliau sylfaenol cyffredinol da gan recriwtiaid newydd yn cynnwys dealltwriaeth o'r offer. Yn ogystal, maent yn edrych am rai rhinweddau personol hanfodol fel dibynadwyedd a phrydlondeb[6]

Mae'r myfyrwyr eu hunain yn falch iawn o'r sgiliau maent yn eu dysgu yng Ngholeg Ceredigion. Maent yn hapus ac yn hyderus i fynd â'r rhain allan i'r gweithle, sy’n awgrymu bod y busnesau hynny sydd yn cyflogi prentisiaid yn ennill rhai o'r sgiliau sylfaenol hynny sydd eu hangen yn fawr gan fusnesau eraill yn y sector.

Ymdeimlad o falchder myfyrwyr yn y sgiliau y maent yn eu dysgu (graddfa 1-10 lle mae 10 yn hynod falch)





Mae'r rhanddeiliaid yn nodi hefyd bod dysgu cyfunol yn fwy deniadol i fusnesau bach a meicro ac y byddai darparu sylfaen mewn sgiliau adeiladu yn arfogi dysgwyr â set sgiliau ehangach i fusnesau. Maent yn pwysleisio'r angen i'r cwricwlwm gyflawni'r hyn sy'n berthnasol i fusnesau ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd ansawdd yn hytrach na rhifau. Awgrymodd un o'r rhanddeiliaid y gallai grŵp llywio dan arweiniad cyflogwyr helpu i wella pethau ymhellach wrth edrych yn benodol ar anghenion sgiliau busnesau a sut gall y cwricwlwm helpu yn y gwaith hwn.

[6] Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad II – Cynllunio Eich Dyfodol  Cyfweliadau Ffôn â Busnesu

## 3.3. Prentisiaid


### 3.3.1. Cyflogi prentisiaid

Nid yw mwyafrif y busnesau (60%) wedi cyflogi prentisiaid yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Y busnesau mwy, 6 neu fwy o weithwyr, yw'r rhai sy'n tueddu i gyflogi prentisiaid.




Yn gyffredinol, y rhai sydd wedi cyflogi prentisiaid yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf yw'r busnesau mwy.


Mae'r rhai sydd wedi cyflogi prentisiaid yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, yn tueddu i ddweud eu bod wedi ei chael yn weddol anodd i ddod o hyd i rywun addas: roedd bron i ddwy ran o dair (64%) yn ei chael hi'n anodd iawn neu'n eithaf anodd. Mae rhai a ddaeth o hyd i brentis addas yn fwy tebgol o fod wedi cael cais gan ffrindiau neu deulu i gyflogi rhywun.



### 3.3.2. Bod yn barod at waith

Ar y cyfan, mae busnesau'n teimlo nad yw'r prentisiaid yn barod ar gyfer byd gwaith. Er bod rhai wedi cael profiadau cadarnhaol iawn gyda phrentisiaid a'u bod wedi paratoi'n dda iawn ar gyfer yr amgylchedd waith mae'r mwyafrif yn teimlo nad oes gan eu prentisiaid y sgiliau sylfaenol disgwyliedig.

Ar gyfartaledd, mae busnesau yn graddio parodrwydd gwaith prentisiaid yn 5.3 allan o 10, gan awgrymu y gellid gwneud mwy i baratoi myfyrwyr cyn iddynt ymuno â'r gweithle.




Er gwaethaf y farn wael hon ar y cyfan o effeithiolrwydd prentisiaethau ar hyn o bryd, dywed dwy ran o dair o'r busnesau[7] y byddent yn cyflogi prentis yn y dyfodol agos, gan nodi pa mor hanfodol ydynt fel pwynt mynediad i'r sector ac yn sianel ar gyfer gweithlu'r sector adeiladu i'r dyfodol.

Yn gyffredinol, mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol iawn am eu profiadau dysgu ar y cyrsiau adeiladu yng Ngholeg Ceredigion. Bron yn ddieithriad (40 o'r 42) byddent yn argymell y cyrsiau adeiladu i ffrindiau a theulu, gyda sawl un yn ychwanegu i'w canfyddiad o'r sector newid er gwell.

O ystyried bod y myfyrwyr eu hunain yn gyffredinol yn teimlo'n falch iawn o'r sgiliau y maent yn eu datblygu, mae'n ymddangos bod bwlch sylweddol rhwng disgwyliadau'r busnesau a'r prentisiaid eu hunain. Mae'n hanfodol bod y bwlch hwn yn cau er mwyn cynyddu bodlonrwydd y sector â'r rhaglen brentisiaeth, ac i leihau nifer y myfyrwyr sy'n gadael y cwrs a'r rhai hynny â chyflawniadau isel.

[7] Ffynhonnell : Arolwg Busnesau Ar-lein Mae mwy o fanylion i'w gweld yn Atodiad I

### 3.3.3. Mynd i'r afael â materion prentisiaethau a diwallu anghenion busnesau

Yn yr un modd ag y mae busnesau wedi cael trafferth dod o hyd i'r math iawn o ymgeisydd ar gyfer eu prentisiaethau, mae myfyrwyr hefyd wedi ei chael hi'n anodd dod o hyd i fusnesau addas i'w cyflogi. Er mwyn llwyddiant y rhaglen mae angen sicrhau bod busnesau o bob maint ac ym mhob rhan o'r sector adeiladu yn ymwybodol o'r buddion o gyflogi prentis, a'u hannog i wneud hynny. Mi fydd hyn nid yn unig yn cynyddu nifer y cyfleoedd i ddysgwyr, ond gallai hefyd helpu i ddenu mwy o ddysgwyr oherwydd y cynnydd yn yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael.

Gan taw busnesau bach a meicro yw'r cyfran fwyaf o fusnesau adeiladu yng Ngorllewin Cymru mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu targedu'n benodol gan hyrwyddo'r neges y gallai cyflogi prentis fod o fudd i'w busnes. Mae yna ymdeimlad ymysg llawer o'r busnesau llai eu bod yn rhy fach i gyflogi prentis ac mae angen mynd i'r afael â hyn os ydi prentisiaethau i ffynnu yn lleol. Un ffordd y gellir cyflawni hyn yw edrych ar ffyrdd o leihau'r baich ar unig fasnachwyr a busnesnau bach a busnesau meicro megis "rhannu" prentisiaid a thrwy hynny gynyddu profiadau prentisiaid ar draws nifer o wahanol fusnesau/crefftau.

Yn gyffredinol, mae gan y rhanddeiliaid ddealltwriaeth ddofn o'r cynlluniau prentisiaeth sydd ar waith ar draws Cymru gyfan ac maent yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol prentisiaid i'r sector. Nodwyd, serch hynny, nifer o ffyrdd y gellid datblygu'r rhaglen brentisiaeth ymhellach i gynyddu'r buddion o fewn y sector yng Ngorllewin Cymru:

- Yn gyntaf maent yn tynnu sylw at yr angen i deilwra cynlluniau prentisiaethau a'u gwneud yn fwy hyblyg ac yn fwy perthnasol ac yn nodi y gellid cyflawni hyn trwy sicrhau cyfathrebu gwell rhwng y coleg a'r busnesau a hynny trwy gydol y cyfnod prentisiaeth gan sicrhau bod materion megis presenoldeb a phrydlondeb gwael ac ati yn cael eu rhannu gyda'r coleg ac yn cael sylw. Mae angen hefyd gynnwys busnesau yn natblygiad y cwricwlwm a llwybrau dysgu. Mae awgrym hefyd y dylai tiwtoriaid dderbyn DPP parhaus ar brosiectau adeiladu go iawn i sicrhau eu bod yn gallu gwerthfawrogi'r heriau sy'n wynebu busnesau yn yr ardal.

- Yn ail, maent yn teimlo bod angen newid y canfyddiad mai dim ond ar gyfer dysgwyr llai academaidd y mae'r diwydiant adeiladu yn addas. Mae angen i'r sector ddenu ystod o ddysgwyr gan gynnwys mwy o fenywod. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen mwy o addysg am y sector a'r cyfleoedd y mae'n ei gynnig gan rannu'r wybodaeth hon gyda phlant llawer yn gynharach yn eu llwybr addysgol. Maent hefyd yn awgrymu targedu pobl ifanc 16-18 oed trwy gynnal sesiynau blasu a sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith. Maent yn teimlo bod angen i'r broses ddethol fod yn fwy trylwyr er mwyn medru darparu'r math o fyfyrwyr sydd eu hangen ar fusnesau: yn llawn cymhelliant, ymroddiad ac ymgysylltiad. Maent yn awgrymu datblygu deunyddiau hyrwyddo fel straeon newyddion da ac astudiaethau achos o brofiadau dysgwyr i hyrwyddo'r sector a chreu negeseuon cadarnhaol a pherthnasol.

- Yn drydydd, tynwyd sylw at y cyfleoedd y mae technoleg yn ei chynnig i fyfyrwyr o ran cyrchu cynnwys a hyfforddiant gan awgrymu bod y rhyngrwyd yn ffordd o hwyluso cyd-

weithio rhwng sefydliadau dysgu a goresgyn y broblem o’r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr / dysgwyr mewn ardaloedd gwledig.

- Yn bedwerydd, maent yn awgrymu y gallai cynnig cyrsiau modwlaidd mewn sgiliau arbenigol helpu i gynyddu ac uwchsgilio'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector, a helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau arbenigol. Mae’r rhanddeiliaid yn awgrymu bod y nifer gyfyngedig o gyrsiau a gynigir yng Ngholeg Ceredigion yn cyfrannu at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr.

## 3.4. Cysylltiadau rhwng y Diwydiant a’r Sector Addysg

### 3.4.1. Y sefyllfa bresennol

Nododd bron i ddwy ran o dair o’r busnesau a gafodd eu cyfweld (60%) na fyddent yn gwybod ble i fynd i gael cyngor ar sut i gyflogi myfyrwyr a phrentisiaid, gan dynnu sylw at y bwlch sy’n bodoli ar hyn o bryd rhwng y sectorau addysg ac adeiladu. Mae llawer hefyd yn nodi nad ydynt hyd yn oed wedi ystyried cysylltu â’r coleg i’w helpu i lenwi’r anghenion sgiliau yn eu busnes.

Mae gan nifer o'r myfyrwyr aelodau o'r teulu sy’n gweithio yn y sector ac felly roeddent yn edrych am brentisiaethau o fewn rhwydweithiau presennol ac, yn wir, dywed nifer o'r busnesau eu bod wedi cyflogi prentisiaid yr oeddent eisoes yn eu hadnabod. Y rhai problematig felly yw’r rhai hynny nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r sector. Dywed un myfyriwr a gafodd anhawster ddod o hyd i gwmni addas nad oedd e’n defnyddio’r sgiliau yr oedd e wedi eu dysgu yn ei rôl o ddydd i ddydd. Mae sefyllfa lle nad yw prentisiaid sy’n barod am waith yn cael eu herio ac yn methu datblygu yn y gweithle fel y dylent yn cymhlethu materion parthed cyflawniad isel, cyfradd uchel y bobl sy’n gadael a phrinder sgiliau.

Ar hyn o bryd mae'r cysylltiadau hynny rhwng y coleg a'r sector ar goll ac mae angen eu gwella er sicrhau'r berthynas i’r dyfodol a gwella'r hyn a gynigir yn y coleg. Bydd hyn nid yn unig yn cynyddu cyfleoedd ond hefyd yn helpu i sicrhau bod cyrsiau'n diwallu anghenion dysgwyr a busnesau.

### 3.4.2. Cysylltiadau â’r diwydiant: Y Dyfodol

Awgrymodd y busnesau nifer o wahanol weithgareddau fyddai'n fuddiol o ran annog cysylltiad agosach rhwng y diwydiant a'r Coleg:

- **Diwrnodau agored i fusnesau yn y Coleg -** yn arbennig ar gyfer datblygu cysylltiadau gyda busnesau bach sy’n teimlo bod ganddynt lai o ymgysylltiad gyda’r sector addysg ac yn llai ymwybodol o’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae yna deimlad cryf bod y coleg yn ymgysylltu’n fwy gyda’r busnesau mawr a nad yw’r busnesau bach yn weladwy.
- **Hyrwyddo prentisiaethau o fewn y sector** – yn enwedig gyda’r busnesau hynny nad ydynt wedi cyflogi prentisiaid o’r blaen / ddim yn ystyried gwneud.

- **Gweithio gyda busnesau –** i gryfhau’r cyfathrebu rhwng y coleg a busnesau, codi ymwybyddiaeth o gyrsiau prentisiaeth ac i wella’r ddeialog rhwng tiwtoriaid a’r busnesau bach a chanolig er sicrhau bod y ddwy ochr yn cael budd o’r cynllun prentisiaeth.
- **Deall ac adnabod anghenion busnesau –** datblygu myfyrwyr sydd yn gymwys ar gyfer y gweithle yn cynnwys sgiliau sylfaenol o ran y diwydiant yn ogystal â sgiliau bywyd sylfaenol ac i gael trafodaethau ynglŷn â sut y gellid cynllunio amserlen y cwrs er ateb anghenion busnesau yn well.
- **Cyfathrebu uniongyrchol â busnesau, h.y. post-dafliadau** – i ddatblygu cysylltiadau gyda’r busnesau hynny sydd heb berthynas â’r coleg ar hyn o bryd.
- **Digwyddiadau agored mewn siopau masnach** – h.y. Screw fix, Jewson’s ayb er mwyn creu presenoldeb gweladwy yng nghanolfannau cyflenwi’r busnesau adeiladu.

Mae'r rhanddeiliaid yn ategu'r syniadau hyn gan dynnu sylw at yr angen am well cyfathrebu rhwng y coleg a busnesau er mwyn teilwra cyrsiau a'u gwneud yn hyblyg ac yn berthnasol. Maent hefyd yn pwysleisio buddion cadarnhaol cysylltiadau agos â diwydiant yn enwedig o ran datblygu agwedd dda at waith, cadw at safonau uchel, realiti masnachol, cod ymddygiad, proffesiynoldeb a safonau uchel o wasanaeth i gwsmeriaid. Mae un o’r rhanddeiliad yn argymell gweithio'n agosach gyda’r CITB i greu cysylltiadau cryfach â busnesau. Bydd y cysylltiadau agos hyn yn eu tro yn gwneud y gwaith o recriwtio lleoliadau profiad gwaith yn fwy rhagweithiol a bydd busnesau’n cadw'r Coleg mewn cof pan fyddant yn edrych i recriwtio gweithwyr/prentisiaid newydd.

Yn gyffredinol, y teimlad yw y bydd y datblygiadau o’r math hyn yn helpu i wella profiadau a chanlyniadau dysgwyr yn ogystal â darparu gweithlu medrus, iau ac wedi eu paratoi’n dda ar gyfer y gweithle.

## 3.5. Themâu Allweddol a Chanlyniadau

Mae'r ymchwil yn dangos, er bod yna rai elfennau llwyddiannus o ran cyflwyno'r rhaglen brentisiaeth, byddai cydweithio agosach rhwng y sectorau adeiladu a darparwyr addysg yn eu gwella’n sylweddol.

Mae'r ymgynghoriad yn nodi tri maes allweddol y mae angen eu datblygu:

- Prinder Sgiliau
- Parodrwydd At Waith
- Adeiladu Cysylltiadau

### A. Prinder sgiliau

Mae cyfran sylweddol o fusnesau sy'n profi prinder sgiliau, yn dweud eu bod yn chwilio am recriwtiaid â sgiliau arbenigol i ymuno â'u cwmni. Fel arfer maent yn chwilio am brofiad a'r gallu i ymgymryd â gwaith heb oruchwyliaeth ochr yn ochr â meddu ar y sgiliau angenrheidiol. Mae'n ymddangos bod bwlch sylweddol rhwng yr hyn sydd ei angen ar y diwydiant a’r sgiliau sydd ar gael ar hyn o bryd. Er na fydd prentisiaethau a chyrsiau

arbenigol yn mynd i'r afael â'r angen hwn ar unwaith, fe fyddant yn sicrhau bod cyflenwad o'r sgiliau sydd eu hangen ar gael yn y dyfodol. Serch hynny, mae angen rhywbeth sy'n pontio'r bwlch er mwyn helpu newydd-ddyfodiaid i'r sector ddatblygu sgiliau arbenigol i'w galluogi i ddiwallu anghenion busnesau. Mae'r rhanddeiliaid yn awgrymu y dylid cyflwyno modwlau arbenigol i'r cwricwlwm a fyddai'n galluogi'r gweithlu presennol i uwchsgilio yn ogystal â chynnig mwy o ddewis i ddysgwyr newydd.

Mae busnesau hefyd yn pwysleisio'r angen am sgiliau sylfaenol cadarn. Mae angen i brentisiaid feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol ond cadarn o dechnegau ac offer adeiladu cyn mynd i'r gweithle. Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod newydd-ddyfodiaid i'r gweithle yn brin o sgiliau sylfaenol, rhai personol a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r sector, sy'n arafu eu cynnydd yn y gwaith. Mae llawer o fusnesau yn profi lefel gwael o addysg yn eu recriwtiaid ifainc newydd ac yn pwysleisio bod sgiliau rhifedd ac iaith yn hanfodol ar gyfer y gweithle a bod angen gwella'r rhain er mwyn gwella eu parodrwydd at waith.

Mae hyn yn sylfaenol gan sicrhau bod y cysyniad o gyflogi prentisiaid yn gweithio'n dda i fusnesau. Bydd yn sicrhau bod gan recriwtiaid newydd y sgiliau sylfaenol a'r gallu i gyflawni tasgau syml yn syth.

## B. Parodrwydd at waith

Gyda mwyafrif y busnesau sydd wedi cyflogi prentisiaid yn dweud nad yw'r bobl ifainc yn barod ar gyfer y gweithle (y sgôr cyfartalog yw 5.3 allan o 10), mae mwy y gellir ei wneud i baratoi dysgwyr ar gyfer eu lleoliadau. Mae diffyg parodrwydd at waith yn cael ei gysylltu'n agos â phrinder sgiliau, ac mae busnesau unwaith eto yn tynnu sylw at y ffaith mai diffyg sgiliau sylfaenol yw'r broblem fwyaf.

Yn fwyaf nodedig, mae busnesau'n awgrymu y byddai lefelau gwell o...

- Addysg sylfaenol – rhifedd, sgiliau iaith/cyfathreb a datrys problemau
- Sgiliau sylfaenol adeiladu, a
- Dealltwriaeth dda o'r offer sylfaenol

...yn gwella parodrwydd at waith y prentisiaid yn sylweddol.

Mae busnesau hefyd yn nodi bod y diwylliant gwaith yn dipyn o sioc i lawer o bobl ifainc ar y dechrau, yn enwedig yn y sector adeiladu lle mae disgwyl iddynt weithio oriau hir ac ym mhob tywydd. Mae agweddau penodol megis parodrwydd i ddysgu a dibynadwyedd yn nodweddion hanfodol a theimlir y dylai'r Coleg wneud mwy i baratoi myfyrwyr ar gyfer realiti'r sector adeiladu.

Er mwyn i'r prentisiaid gyrraedd eu potensial a sicrhau'r buddion gorau posibl iddynt hwy eu hunain ac i'r busnesau rhaid i fyfyrwyr ennill y sgiliau hyn cyn mynd i'r gweithle. Gyda'r

sylfaen hon ar waith byddent mewn gwell sefyllfa i ymdopi â gofynion eraill y gweithle a chwblhau eu hyfforddiant yn llwyddiannus.

## C. Adeiladu Cysylltiadau

Cwmnïau adeiladu bach sy'n dominyddu'r sector yng Ngorllewin Cymru ond eto i gyd nid ydynt yn teimlo bod ganddynt berthynas â'r sector addysg. Yn ôl y cyfweliadau y dybiaeth ymysg y cwmnïau yw fod mwy o gysylltiad rhwng y sector addysg a’r cwmnïau mawr. Mae'r ymchwil yn tynnu sylw at y ffaith nad oes gan fusnesau meicro fawr ddim cysylltiad â'r coleg ar hyn o bryd. Maent yn awyddus i weld hyn yn newid a byddent yn croesawu cyfleoedd i weithio gyda'r coleg.

Mae yna ddigon o sgôp i fwy o ryngweithio rhwng busnesau a'r coleg. Awgrymwyd creu **grwpiau llywio dan arweiniad cyflogwyr** i helpu i lunio'r cwricwlwm yn unol ag anghenion busnesau, **diwrnodau agored** i annog mwy o ryngweithio rhwng y coleg a busnesau a **chyfathrebu uniongyrchol â busnesau** fel ffyrdd o gynyddu ymgysylltiad â'r sector.

Cydnabyddir hefyd y gallai gwella cysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol ledled Gorllewin Cymru helpu i sicrhau bod cynnig Coleg Ceredigion yn unol â thueddiadau a blaenoriaethau ehangach y sector gan ei gadw'n berthnasol ac ar gof y sefydliadau sy'n gweithio yn y sector yn ddyddiol.